Beth yw sgan MUGA?

Mae sgan MUGA yn rhoi gwybodaeth i ni pa mor dda mae wal eich calon yn gweithio wrth iddi bwmpio gwaed i mewn i'ch corff.

Sut ydw i'n ymbaratoi ar gyfer y sgan?

Nid oes angen i chi wneud unrhyw beth arbennig ar gyfer y sgan. Fodd bynnag, gadewch i ni wybod os cawsoch chi sgan radioleg gyda lliw cyferbyniol neu brawf Meddygaeth Niwclear arall lai na 1 wythnos cyn eich prawf MUGA.

Beth sy'n digwydd yn y sgan?

Er mwyn gwneud y sgan, bydd rhaid i ni roi 2 bigiad i chi. Maen nhw'n cael eu rhoi drwy ganwla, fel arfer mewn gwythïen yn eich braich. Bydd y pigiad cyntaf yn cael ei roi yn fuan ar ôl i chi gyrraedd yr adran. Mae'r pigiad hwn yn paratoi eich celloedd gwaed i gael eu labelu gydag olrheiniwr ymbelydrol. Mae'r ail bigiad yn cynnwys maint bach o'r olrheiniwr ymbelydrol. Bydd angen aros 20 munud rhwng y ddau bigiad.

Wedyn, bydd yn rhaid i chi orwedd ar soffa tra bod y gwifrau ECG yn cael eu rhoi ar eich brest i roi elfen hybrin o guriad eich calon i ni. Yna, bydd y camera yn cael ei roi uwchben eich calon, a bydd y sgan yn digwydd. Bydd y broses ddelweddu hon yn cymryd oddeutu 20 i 30 munud i'w chwblhau.

Bydd eich sganiau'n cael eu hadrodd gan Wyddonydd Clinigol, ac anfonir y canlyniadau yn ôl at y meddyg a ofynnodd am y sgan.

Beth sy'n digwydd ar ôl y sgan?

Bydd technolegydd yn gwirio i sicrhau y cafwyd sgan boddhaol, ac ar ôl hynny, cewch chi adael. Gallwch chi yrru adref a pharhau â'ch gweithgareddau arferol. Dylech chi ganiatáu oddeutu un awr am y broses gyfan.

Bydd canlyniadau'r sgan yn cael eu hesbonio i chi yn eich apwyntiad nesaf yn y Clinig Cleifion Allanol, neu yn y feddygfa os ydy eich Meddyg Teulu wedi eich atgyferio chi.

Ydy e'n anghyfforddus?

Nac ydy, heblaw am y pigiad, sy'n debyg i brawf gwaed.

Nid yw'r sgan yn cynnwys symud drwy dwnel. Fodd bynnag, bydd camera mawr yn cael ei leoli'n agos atoch er mwyn cymryd lluniau. Ni fydd yn rhaid i chi ddadwisgo, ond efallai gofynnir i chi dynnu gemwaith neu eitemau metel. Hefyd, bydd angen i ni gysylltu'r electrodau ECG â'ch brest. Rydym felly yn gofyn i chi wisgo dillad a fydd yn ein galluogi ni i wneud hynny'n haws.

A oes unrhyw sgil-effeithiau?

Mae gweithdrefnau Meddygaeth Niwclear ymhlith y profion delweddu diagnostig mwyaf diogel. Mae'r sylwedd ymbelydrol yn allyrru ymbelydredd, sy'n cael ei ddatgelu gan y camera er mwyn tynnu lluniau. Mae'r maint o ymbelydredd a dderbynnir yn yr archwiliad hwn yn cael ei gymharu â 2.3 blynedd o ymbelydredd cefndirol yn y DU. Ni fyddwch chi'n peri risg i bobl eraill, gan gynnwys eich teulu agos. Mae sgil-effeithiau oherwydd yr olrheiniwr ymbelydrol yn brin iawn. Mae'r sgil-effeithiau a all ddigwydd fel arfer yn ysgafn iawn.

Cyfarwyddiadau Pwysig:

1. Os na allwch chi ddod i'ch sgan, ffoniwch ni ar (01792) 285295 a gadewch i ni wybod.
2. Os ydych chi wedi cael prawf Meddygaeth Niwclear arall yn yr wythnos cyn eich apwyntiad, gadewch i ni wybod cyn dod i'r sgan.
3. Ewch at dderbynfa'r adran Meddygaeth Niwclear ar y diwrnod a'r amser a roddir ar flaen y daflen hon. Mae map o'r ysbyty i'w weld ar gefn y daflen hon.
4. Parhewch i gymryd unrhyw feddyginiaeth a ragnodwyd i chi.
5. Os ydych chi'n feichiog, neu os ydych chi'n bwydo ar y fron, cysylltwch â'r adran.
6. Os ydych chi'n dioddef o anymataliaeth neu os ydych chi'n derbyn triniaeth dialysis, cysylltwch â'r adran.
7. Ar ôl i chi gael y pigiad, osgowch gyswllt agos â phlant neu fenywod beichiog am 24 awr.
8. Peidiwch â dod i'ch apwyntiad gyda phlant neu fenywod beichiog.
9. Peidiwch â rhoi samplau gwaed neu wrin dros y 24 awr nesaf.
10. Yfwch ddigon ar ôl eich apwyntiad.
11. Teithio: mae gan rai meysydd awyr, porthladdoedd a gorsafoedd trenau fonitorau ymbelydredd sensitif a allai gael eu hactifadu gennych chi ar ôl y sgan, felly dylech chi gario eich llythyr apwyntiad am 7 diwrnod.

Ysbyty Singleton

CYNLLUN SAFLE



Cyfarwyddiadau o draffordd yr M4

O unrhyw gyffordd rhwng 42 a 47, dilynwch arwyddion Canolfan Dinas Abertawe i ddechrau, ac yna dilynwch y cyfarwyddiadau ar gyfer y Gŵyr a'r Mwmbwls. Bydd arwyddion Ysbyty Singleton yn amlwg ger ffiniau'r ddinas. Mae Heol Sgeti ar yr A4216.



06/07

GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
Swansea Bay University Health Board

YSBYTY SINGLETON

MEDDYGAETH NIWCLEAR

Apwyntiad eich

Sgan MUGA

Darllenwch y daflen hon yn ofalus ac ewch i'r Adran Meddygaeth Niwclear ar gyfer yr apwyntiad isod

Enw

Manylion yr Apwyntiad

Dyddiad

Amser

Os na allwch chi ddod i'r apwyntiad hwn, neu os oes gennych unrhyw ymholiadau, ffoniwch (01792) **285295** os gwelwch yn dda.